# Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Medi 20fed yn Neuadd Parc. Yn bresennol oedd Euros Puw (cadeirydd), Gwynfryn Williams, Gwynedd Jones, Huw Charles, Jean Roberts, Arwel Davies, Rhys Richards, Geraint Jones, Geraint Davies a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Elwyn Edwards.

Cydymdeimlwyd a Rhys Richards a'r teulu yn dilyn eu profedigaeth yn ddiweddar.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mai, Mehefin a Gorffennaf a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Ethol is-gadeirydd.
Cytunwyd yn unfrydol i ethol Huw Charles i'r swydd.

**iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

iv) Gohebiaeth
a) Cyngor Gwynedd.
i) Cynllun Ardal Bala a Phenllyn **-** cytunwyd i fod yn rhan o'r drafodaeth.

b) Llywodraeth Cymru.
i) Nodyn Briffio Cyfarfodydd aml-leoliad ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref - cafwyd eglurhad gan y clerc a chytunwyd i ddilyn y canllawiau newydd.
ii) Rheolau Drafft Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021 a Rheolau Drafft Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021.
iii) Ymgynghoriad ar drethi lleol ar gyfer ail gartrefi a llety hunanarlwyo.
iv) Ymgynghoriad ar Reoliadau Cymwysterau Clercod yng Nghymru. Gofynnwyd i'r Clerc gwblhau holiadur.
v) Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru ar gyfer tymor y Senedd hon ynghyd â'r Datganiad Llesiant cysylltiedig.

c) Parc Cenedlaethol Eryri.
i) Gwybodaeth am eu Cronfa Cymunedol.
ii) Arolwg o'u defnydd o'r iaith Gymraeg.

ch) Dŵr Cymru.
i) Gwaith diogelwch ar Argae Llyn Celyn **– c**afwyd adroddiad gan Jean Roberts o'r hyn a drafodwyd yn y cyfarfod briffio.
ii) Capel Coffa Capel Celyn yn rhan o ŵyl Drysau Agored, Cadw **-** cafwyd adroddiad gan Gwynedd Jones a oedd wedi mynychu'r diwrnod agored**.**

d) Amrywiol.
i) Cadwch Gymru'n Daclus – Pecyn gardd am ddim.
ii) Cyngor Tref Nefyn - Creu memorandum o ddealltwriaeth ynglŷn â Polisi Iaith. Cytunwyd i gadarnhau fod gan y Cyngor ddiddordeb mewn cymryd rhan yn y drafodaeth.
iii) Cyngor Cymuned Pistyll – problem parcio 'campervans'. Cytunwyd i gefnogi cais y Cyngor Cymuned i bwyso ar Cyngor Gwynedd i greu strategaeth i ddelio â'r broblem.
iv) Un Llais Cymru – gwybodaeth am drefniadau 'Operation London Bridge'.



Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….

v) Panel Taliadau Annibynnol Cymru (IRP) - ymgynghoriad draft ar gynigion y fframwaith tâl ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref.
vi) Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - diweddaru'r canllawiau er mwyn cefnogi Model God Ymddygiad 2016.
vii) Heddlu Gogledd Cymru - Gwasanaeth negeseuon cymunedol newydd 'Rhybudd Cymunedol'.
viii) Triathlon Y Bala - cais am adborth. Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol bod unrhyw broblemau wedi codi ar y diwrnod.
x) Comisiwn Ffiniau i Gymru - ei hadroddiad Cynigion Cychwynnol ar gyfer etholaethau Seneddol newydd Cymru.

**v) Ceisiadau Cynllunio.**
a) Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol a chytunwyd i'w gefnogi:-
NP5/71/405D - Adeiladu adeilad amaethyddol i gadw gwartheg. Gwern Hefin, Llanycil.

**vi) Materion Ariannol**
a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau)
Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Mehefin a chafwyd yn gywir.

b) Praesept.
Derbyniwyd ail randal y Praesept o £2,000.

c) Gwefan y Cyngor.
Derbyniwyd llythyr gan HG Webb Designs yn egluro byddai'r gost flynyddol o gynnal y wefan yn codi.

ch) Llythyr gan HSBC ynglŷn â'r cyfrifon banc.
Cytunwyd yn unfrydol i wrthwynebu penderfyniad y banc i godi ffi misol a ffioedd eraill ar gyfri'r Cyngor a chyfrifon elusennol a chymdeithasol lleol.

d) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-
Cymeradwy'r taliad cyflog a chostau'r Clerc (Ebr-Meh) a TWE a wnaed ym mis Gorffennaf. Cytunwyd i dalu Cyngor Gwynedd (archwiliad mewnol).

dd) Ceisiadau ariannol
Derbyniwyd ceisiadau ariannol gan Hosbis Dewi Sant a Ronald McDonald House Charities UK. Cytunwyd i'w trafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

**vii) Unrhyw Fater Arall.**
a) Ceir yn parcio ar y llwybr cerdded/beics ar y A494, Llanycil.
Yn ystod yr haf bu nifer o gwynion am y ceir a oedd yn parcio ar y llwybr ger y llyn ac yn rhwystro cerddwyr a beicwyr basio. Roedd ansicrwydd pwy oedd yn gyfrifol am reoli hyn gyda'r awdurdodau gwahanol yn pasio'r cyfrifoldeb ymlaen i'r awdurdodau eraill. Yn y diwedd cafwyd cadarnhad fod ddim posib gwahardd cerbydau rhag parcio yno ar hyn o bryd ond bod grymoedd newydd yn dod i rym yn 2022 a fyddai'n galluogi'r awdurdod priffyrdd lleol i wneud hyn.

b) Gofynnwyd i'r clerc basio'r materion canlynol ymlaen i Gyngor Gwynedd.
i) Cais am rwystrau i arbed cerbydau rhag mynd fewn i'r ffos ar y ffordd heibio Groeslon, Maesywaen.
ii) Angen torri coed yn ôl ger Bryn Rhydd, Maesywaen.
iii) Angen tynnu'r goeden fach helygen oedd yn tyfu fyny trwy'r cattle grid ger chwarel Cloddfa, Nodol.
iv) Derbyniwyd llythyr gan berchnogion Llannerch Las yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor Cymuned gyda'u trafodaethau a Chyngor Gwynedd ynglŷn ag ail adeiladu'r wal gynnal sydd wrth ymyl y tŷ.
v) Gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau pwy oedd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r llwybr rhwng Glanllyn a Llanuwchllyn.

## Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Tachwedd 9fed am 8.00 y.h. yn Neuadd Parc.



Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….